

# Hysbysiad Hwylus

## Llyfryddiaeth Cytuniad Lisbon

Mai 2010

### Cyflwyniad

Daeth Cytuniad Lisbon i rym ar 1 Rhagfyr 2009. Daw'r hysbysiad hwn â set o adnoddau ar Gytuniad Lisbon ynghyd o dan sawl adran.

### Hanes

#### History of the Lisbon Treaty [fel ar 5 Mai 2010]

Amserlen y Cytundeb, o 1957 i'r presennol. Rhan o wefan Comisiwn y Refferendwm.

#### Timeline: The road to Lisbon [fel ar 5 Mai 2010]

Amserlen a gynhyrchwyd gan y BBC, sy'n adrodd hanes siwrnai'r Cytuniad a'r rhwystrau a wynebwyd ar hyd y daith.

### Gwefannau

Gwefan [Europa](#) yw safle porthol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar yr Undeb Ewropeaidd ac integreiddio Ewropeaidd.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn esbonio Cytuniad Lisbon ymhellach.

- [The Treaty at a glance](#), Europa, [fel ar 5 Mai 2010]
- [Lisbon Treaty: questions and answers](#), Europa [fel ar 5 Mai 2010]
- [Full Text of the Treaty](#) [fel ar 5 Mai 2010]

Mae'r wefan [EurActiv.com](#) yn darparu gwybodaeth am bolisiau lleol yr Undeb Ewropeaidd mewn naw iaith, ac maent ar gael i darllenwyr ledled Ewrop.

- [The Treaty of Lisbon Dossier](#)
- [Foreign and Commonwealth Office](#)
- [The Lisbon Treaty](#): [fel ar 5 Mai 2010]

Gwybodaeth am y Cytuniad a sut y mae'n effeithio ar y Deyrnas Unedig.

## European Parliament

Senedd Ewrop yw'r unig gorff yn yr Undeb Ewropeaidd a etholir yn uniongyrchol. Mae'r 736 o Aelodau Senedd Ewrop yn cynrychioli'r 500 miliwn o ddinasyddion Ewrop.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar y wefan hon am sut y mae'r Senedd yn trefnu ei gwaith trwy system o bwyllgorau arbenigol.

Datganiad i'r wasg gan Senedd Ewrop: ***Parliament gets ready for the Lisbon Treaty***, 3 Tachwedd 2009

## European Sources Online

Mae European Sources Online yn rhoi mynediad at wybodaeth am sefydliadau a gweithgareddau'r Undeb Ewropeaidd, y gwledydd, y rhanbarthau a'r sefydliadau rhwngwladol eraill yn Ewrop. Chwiliwch am 'Gytuniad Lisbon' am restr gynhwysfawr o ddogfennau.

## Open Europe

Melin drafod annibynnol yw Open Europe, sydd â swyddfeydd yn Llundain a Brwsel ac sy'n annog dadl ar gyfeiriad yr Undeb Ewropeaidd.

## Hysbysiadau

- [\*\*Your guide to the Lisbon Treaty\*\*](#), y Comisiwn Ewropeaidd, Gorffennaf 2009 [fel ar 5 Mai 2010]  
Canllaw cryno sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- Duff, Andrew, ASE, [\*\*True guide to the Lisbon Treaty\*\*](#), Cynghrair Democratiaid Rhyddfrydol Ewrop [fel ar 5 Mai 2010]
- [\*\*Understanding the Lisbon Treaty\*\*](#): Sefydliad Robert Schuman [fel ar 5 Mai 2010] Cyfres gynhwysfawr o daflenni gwybodaeth yn esbonio agweddau allweddol ar Gytuniad Lisbon. Cynhyrchwyd gan Sefydliad Robert Schuman, sy'n hybu datblygiad Ewrop, a hynny o ran syniadau ac allan yn y maes, ynghyd â dinasyddion.
- [\*\*Q & A: The Lisbon Treaty\*\*](#), Newyddion y BBC [fel ar 5 Mai 2010]
- [\*\*A guide to the Lisbon Treaty\*\*](#), Cymdeithas y Cyfreithwyr, Ionawr 2008 [fel ar 5 Mai 2010]  
Canllaw a gynhyrchwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, sy'n darparu trosolwg o'r Cytuniad o safbwyt cyfreithiol.

- Magee, Jessie, [The Lisbon Treaty for dummies](#), *Irish Independent* [fel ar 20 Ionawr 2010]
- [The Lisbon Treaty: An information leaflet for the citizens of the European Union.](#)  
Lwcsembwrg: Swyddfa Cyhoeddiadau Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd, 2009 [fel ar 5 Mai 2010]

## Menter Dinas-yddion Ewrop

Mae Cytuniad Lisbon yn cyflwyno modd newydd i'r cyhoedd gymryd rhan yn y gwaith o lunio polisiau'r Undeb Ewropeaidd, menter dinasyddion Ewrop, sy'n galluogi miliwn o ddinasyddion sy'n wladolion o nifer sylweddol o aelod-wladwriaethau i alw'n uniongrychol ar y Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno menter sydd o ddiddordeb iddynt yn un o feysydd cymhwysedd yr Undeb Ewropeaidd.

- [Public Consultation on the European Citizen's Initiative](#) [fel ar 5 Mai 2010]
- [Initiative for the Citizen's Initiative](#) [fel ar 5 Mai 2010]
- [Democracy International](#) [fel ar 5 Mai 2010]
- Costello, Joe [Issues around EU citizens' initiative should be tackled](#), *Irish Times*, 02 Chwefror 2010 [fel ar 5 Mai 2010]

## Protocol Sybsidiaredd: Ymgynghori â Seneddau Cenedlaethol a Rhanbarthol

Am y tro cyntaf, mae Cytuniad Lisbon yn cynnwys *Protocol Sybsidiaredd a Chymesuredd (Protocol rhif 2)*

Mae erthygl 6 Protocol rhif 2 yn datgan:

"Any national Parliament or any chamber of a national Parliament may, within eight weeks from the date of transmission of a draft legislative act, in the official languages of the Union, send to the Presidents of the European Parliament, the Council and the Commission a reasoned opinion stating why it considers that the draft in question does not comply with the principle of subsidiarity. It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers."

Mae Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ystyried goblygiadau posibl y protocol i Gymru.

- Ymchwiliad i sybsidiaredd a gynhaliwyd yn ystod 2009 - Papur gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, [Adroddiad ar yr Ymchwiliad i Sybsidiaredd](#), 18 Mawrth 2009
- [Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ei Ymchwiliad i Sybsidiaredd, Cofnod y Trafodion t59-80, 20 Mai 2009](#)

Trafodaethau rhwng Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, deddfwrfeydd datganoledig eraill y DU, Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ynghylch gweithredu'r protocol yn ymarferol yn y DU. Gweler trafodion y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, yn enwedig ar 9 Chwefror 2010 a 20 Ebrill 2010.

- Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, [EUR\(3\)-03-10 : Papur 2 : Cytuniad Lisbon a Phrotocol Sybsidiaredd: Goblygiadau i Gymru](#), 9 Chwefror 2010
- Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, [EUR\(3\)-06-10 : Papur 5 : Cytuniad Lisbon a'r Protocol Sybsidiaredd: monitro goblygiadau sybsidiaredd cynigion deddfwriaethol](#), 20 Ebrill 2010
- Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, [EUR\(3\)-03-10 : Papur 2 : Cytuniad Lisbon a Phrotocol Sybsidiaredd: Goblygiadau i Gymru Atodiad 2](#), 9 Chwefror 2010

## Senedd yr Alban

- McIver, I. (2008) Briff gan Ganolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe) 08/2: [The subsidiarity protocol in the Treaty of Lisbon](#), 24 Ebrill 2008  
Mae'r briff hwn yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau Cytuniad Lisbon ar yr egwyddor o sybsidiaredd. Mae'r briff hefyd yn cynnwys dadansoddiad o oblygiadau'r protocol sybsidiaredd i'r seneddau cenedlaethol a rhanbarthol ledled yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n rhoi manylion am ymateb y seneddwyr i'r cynigion.
- Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Senedd yr Alban, [Inquiry into the impact of the Treaty of Lisbon in Scotland](#) [fel ar 5 Mai 2010]

## Cynulliad Gogledd Iwerddon

- Nodyn briffio Cynulliad Gogledd Iwerddon 91/09 *The Lisbon Treaty: Application of the principle of subsidiarity*, Tachwedd 2009

## Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin

- Y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd, [Subsidiarity, national parliaments and the Lisbon Treaty: thirty-third session of 2007-08](#), 8 Hydref 2008, HC 563 2007-08.
- Y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd, [Subsidiarity, national parliaments and the Lisbon Treaty: Government response to the committee's thirty-third session of 2007-08](#), 21 Ionawr 2009, HC 197 2008-09

## Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi

- Y Pwyllgor Undeb Ewropeaidd, [\*The Treaty of Lisbon: an impact of assessment: Volume 1: Report\*](#), 26 Chwefror 2009
- I gael rhagor o wybodaeth, gweler: [\*\*European Union Select Committee\*\*](#) [fel ar 5 Mai 2010]

## Y Lefel Ewropeaidd

### [\*\*Committee of the Regions Subsidiarity Monitoring Network\*\*](#)

Crëwyd y rhwydwaith hwn i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd, o ran dogfennau polisi a chynigion amrywiol y Comisiwn Ewropeaidd.

### [\*\*The network of European Affairs Committees \(COSAC\)\*\*](#)

Mae COSAC yn cynnwys pwyllgorau seneddau cenedlaethol aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymdrin â materion Ewropeaidd, yn ogystal â chynrychiolwyr Senedd Ewrop.

### [\*\*Inter-parliamentary EU Information Exchange \(IPEX\)\*\*](#)

Sefydlwyd IPEX er mwyn annog seneddau cenedlaethol a Senedd Ewrop i gyfnewid gwybodaeth ar gynigion deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd, a hynny er mwyn cynorthwyo â gwaith monitro a chraffu yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

## Gweithdrefn Ddeddfwriaethol Gyffredin

Dyma'r weithdrefn gydbenderfynu, lle disgwyli'r Cyngor a Senedd Ewrop gytuno ar gynigion deddfwriaethol newydd cyn y gellir eu mabwysiadu.

- [\*\*The Union's decision-making procedures\*\*](#), Europa [fel ar 5 Mai 2010]
- [\*\*The Lisbon Treaty: 10 easy to read fact sheets\*\*](#), Sefydliad Robert Schuman [fel ar 5 Mai 2010] Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhestr o'r meysydd 'cydbenderfynu' sy'n bodoli eisoes a'r meysydd newydd a ychwanegwyd.

## Cyhoeddiadau Tŷ'r Cyffredin

- Nodyn Safonol gan Dŷ'r Cyffredin, [\*The European Union: a guide to terminology, procedures and sources\*](#), mis Mawrth 2010
- Papur Ymchwil gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [\*The Treaty of Lisbon after the second\*](#)

## **Irish referendum**, mis Hydref 2009

- Papur Ymchwil gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **The Treaty of Lisbon: An uncertain future**, mis Gorffennaf 2008

## Llyfrau

Gellir benthyg y teitlau isod o Lyfrgell yr Aelodau.

- Steiner, Josephine, (2009) *EU Law*. London: Oxford University Press  
Mae'r gwerslyfr blaenllaw hwn yn rhoi disgrifiad trylwyr, ond sydd eto'n eglur, o'r sefydliadau sy'n rheoli'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â'r meysydd pwysicaf o gyfraith hawliau a gwybodaeth am Gytuniad Lisbon.  
Ategir y cyhoeddiad hwn gan ganolfan adnoddau ar-lein sydd ar gael yn:  
<http://www.oup.com/uk/orc/bin/9780199219070/>
- McCormick, John, (2008) *Understanding the European Union*. London: Palgrave MacMillan  
Sylwebaeth lawn ar bolisi a gwneud polisi, a dulliau damcaniaethol o astudio'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r cyhoeddiad yn darparu asesiad llawn o Gytuniad Lisbon, effaith yr Ewro ac ehangu, a datblygiad rôl yr Undeb Ewropeaidd ar y llwyfan ryngwladol.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ar Lyfryddiaeth Cytuniad Lisbon, cysylltwch â **Lucy Hodson** ([Lucy.Hodson@wales.gov.uk](mailto:Lucy.Hodson@wales.gov.uk)), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Gallwch weld rhestr lawn o hysbysiadau hwylus [yma](#).

---

MRS 10/1290 Lucy Hodson

Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at [MembersLibrary@wales.gov.uk](mailto:MembersLibrary@wales.gov.uk)